Cyf. LIV

Hydref
1954

Rhif 10

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

CYNNWYS

Nodiadau'r Golygydd
Nostalgia
Teulu Athrylithgar
Y Cysgod
Santos
Y Cyrddau Blynyddol
Newyddion yr Enwad
Y Pasiant
Y Cwpwrth Llyfrau



YR YMOFYNNYDD

Pris 6ch y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15fed o'r mis

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. G. Evans, B.A.; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; Islwyn Pritchard, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; T. O. Williams, M.A.; Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'l Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol LIV. HYDREF 1954 Rhif 10

Nodiadau'r Golygydd

Yr Athro W. J. Gruffydd.

Daeth y newydd am farwolaeth Yr Athro Gruffydd a minnau yn ceisio tacluso Ymofynnydd Hydref ar gyfer y wasg, ond teimlaf na allaf adael y rhifyn o'm llaw heb ddweud gair am y gŵr rhyfedd a'r gŵr athrylithgar hwn. Cofiaf i'r Athro M. B. Owen roi'r chwip ar gefn gŵr a fu yn ei or-ganmol ar ôl araith gyhoeddus o'i eiddo drwy ofyn i'r sebonwr a fyddai cystal ag addo pregethu yn ei angladd. Ac o bawb, gwn na fyddai'r Athro Gruffydd am weld seboni di-ddiwedd yn ei farw-gofiannau, ac os oes pin ac inc tu hwnt i'r llen, y mae wrthi eisoes yn adolygu'n llym.

Efallai fy mod yn anffodus, ond bob tro ei gwelais yn siarad yn gyhoeddus a'r un tro y deuthum i gyffyrddiad personol ag ef, ymddangosai fel gŵr blin, neu "ddyn crac" yn nhafodiaith Sir Aberteifi. Gwelais ef yn wyllt yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, ma's o'i gof yn llwyr o flaen tyrfa o fyfyrwyr Coleg Aberystwyth adeg lecsiwn, yn gymaint felly nes iddo gymysgu tudalennau ei araith, ac yn olaf, fe'i cefais ef yn swta a minnau yn gwneud dim drwg, am-wn-i, os nad drwg yw diolch i ddyn am gymwynas. Dyna, mi gredaf, oedd rhai o anffodusion ymddangosiadol yr Athro a gwendidau yr oedd ef ei hun yn ymwybodol ohonynt. Yn rhifyn Hydref 1938 o'r *Llenor* pan oedd yn sôn am roi gorau i'r Nodiadau Golygyddol hynny a fflangellodd gymaint o'r Eisteddfodwyr Mawr a gwŷr pwysig bywyd cyhoeddus Cymru, y mae'n cyfaddef ei wendid a'i fethiant, " . . . rhaid yn awr agor llygaid ar yr hyn y dylaswn fod wedi ei weled ers blynyddoedd, mai ar rywbeth hanfodol ddi-wellâd ynof i fy hun y mae'r bai. Gallaf sicrhau fy narllenwyr fy mod wedi bod yn chwilio am y bai hwn mor hunanymholgar â'r pennaf o'r saint, ac wedi penderfynu yn y diwedd na ddylaswn erioed fod wedi rhoi fy mis ym mrywes Cymru. . . . Mae cymell y gwirionedd yn waith na ddylai neb gywilyddio ohono,

ond 'nid pob dyn' medd Syr Thomas Browne yn un o'i ddywediadau craffaf, 'sy'n addas gymhellwr i'r gwir.' Ac efallai y gellir maddau i'r sawl a ddelo i ganfod hynny amdano ei hunan.'' Dyn mawr a ysgrifennodd y geiriau yna oblegid dim ond dyn mawr sy'n mentro dweud ei farn amdano'i hun a'r farn honno yn fychanus. Beth tybed a fyddai dylanwad W.J. petasai ganddo rai o'r doniau cynorthwyol hynny sy'n gwneud proffwyd yn eilun ? Ni wn beth yw'r ateb, ond gwn na thâl brws llawr meddal i ysgubo buarth leidlyd. Gwn hefyd i ysgubell bigog yr Athro lanhau'r Eisteddfod o'i chrach-Seisneigrwydd gan yrru'r ymhonwyr i'w priod le—y domen. Rhaeadrodd ei ddychan deifiol ar galfiniaeth gul ei meddwl a pharchus ei gwisg ; safodd dros anghydffurfiaeth ddigymrodedd gan fod yn annibynnol hyd yn oed ym mysg Annibynwyr. Dyna paham yr oedd mor gyson anghyson, yn meddu ar gynifer o farnau pendant heb un farn y gellid ei rhoi mewn patrwm a chyfundrefn.

Gellid disgwyl i ŵr felly fwrw i ganol terfysg megis terfysg Tom Nefyn yn 1928. Cofiwch i Tom Nefyn gael ei ddiarddel o waith y weinidogaeth am iddo ddefnyddio dulliau a syniadau anuniongred yn ôl barn y Methodistiaid Calfinaidd. Gwrandewch ar y meddwl miniog yn dadansoddi'r sefyllfa, ''Er gwaeth neu er gwell, medd y rhai sy'n dadlau dros waith y Pwyllgor, y mae gennym *Gyffes Ffydd*, a hyd nes ei dileu neu ei newid, rhaid i ni gadw ato, *pa beth bynnag fo ein barn bersonol* . . . os yw cydymffurfio mewn cred a phregethu â'r Cyffes Ffydd yn anhepgor, rhaid bwrw allan bron bob gweinidog sydd gyda'r Methodistiaid, gan gynnwys y mae arnaf ofn, ddynion fel y Dr. Cynddylan Jones. Paham ynteu y dewiswyd Tom Nefyn yn fwch dihangol ? Wel medd y Dr. Owen Prys, am ei fod wedi mynd yn *rhy* bell. Pwy, atolwg, gan hynny sydd i benderfynu pa mor bell y gellir ymadael a'r *Cyffes Ffydd* ? Yr ateb, debyg, fydd synnwyr cyffredin a barn gyffredinol yr enwad. Hynny yw, nid y llyfr a elwir y *Cyffes Ffydd* ydyw credo'r Methodistiaid ond y peth annelwig difudd ac annheg hwnnw, y farn gyffredinol ! '' Rhoes ateb personol hefyd i Peter Hughes Griffiths y gŵr a wnaeth araith o gadair y Gymdeithasfa ar yr achos ac os deifiol oedd ei ymosodiad ar yr enwad yr oedd ei ateb i'r gŵr hwn yn sero'r cnawd . . . ''Y mae'n falch gennyf er eich mwyn chwi a'ch gwasanaeth i Gymru a'i chrefydd nad yw'n arferol gan y Methodistiaid ethol yr un gŵr fwy nag unwaith.''

Hyn oll a sicrha i W. J. Gruffydd safle arbennig nid yn unig fel sgolor a llenor ond fel proffwyd radicaliaeth cyfnod yr adwaith ac amddiffynnydd yr unigolyn rhonc yn nyddiau'r pla a wnaeth ddynoliaeth yn dyrfa yn lle cymdeithas. Aed yn eofn i Eisteddfod Fawr y Proffwydi, ac er uched y safon, ni wêl, wedi mynd ''oddi wrth ei waith''—*atal y wobr* ! ''*Eistedd yng nghwmni prin y cymwynaswyr.*''

Rhyfeddod ! *Empire News* i Gymru !

Yng nghyfnod ein Cyfarfodydd Diolchgarwch, dyma destun newydd i'r gweinidog sydd wedi blino a heb wybod yn sicr a yw amaethwyr yn ddiolchgar neu beidio ar derfyn haf gwlyb. Rhown y testun yn llawn rhag ofn i rywun geisio'r adnod a methu, "*Wales is to have its own Sunday newspaper from Sunday next . . .* " a'r enw trawiadol yw *Empire News*. Ni chredais erioed y gwelwn y dydd pan fyddai gan Gymru ymerodraeth, ond yfory byddaf gyda'r cyntaf i brynu'r papur er danganfod o ba le y daw. Y mae'n amlwg fod Gwynfor Evans, Megan Lloyd Georgea'r pum aelod Seneddol Llafur wedi bod wrthi'n ddiwyd ers pan glywais amdanynt ddiwethaf. Hwyrach mae Ynys Môn ac Ynys Enlli yw'r trefedigaethau, a rhaid i wŷr Ceredigion frysio i roi'r faner Ymerodraethol ar Graig y Lochtyn rhag digwydd i'r gwylanod fynnu hunan lywodraeth.

Nostalgia

Gan D. T. Williams, Aberdâr.

"*Gwŷr y wlad dros y bont.*"
"*A fedd gof a fydd gæth.*"

Wrth ddarllen hanes aelodau Caeronnen yn helpu i chwyddo yr eglwys newydd yn Llanbedr, ceisiaf ddychmygu fy hun ar *point duty* ar sgwâr Cwmann ddeugain mlynedd yn ôl yn cadw'r traffic o Undodiaid ochr draw y bont, smotyn du Gogledd Sir Gaerfyrddin, ar eu ffordd i gymundeb 'nawn Sul ym Mrondeifi. Byddaf yn sefyll ar y sgwâr a'm llaw i fyny i gyfeiriad Pencarreg a'm cefn at riw Teifi Castle. Fy nyletswydd cyntaf ydyw galw'r cerbydau. Y cyntaf, trap Cilgell yn llawn, wedyn trap Frowen, a'r teulu yn fwy na llond un trap a thrap Manglas yntau hefyd yn llawn. Ar eu hôl daw'r gwŷr traed ; dyma Gruffydd Penlan yn dod yn hamddenol heibio Bwlch-y-ffin, a elwir bellach yn Deganwy, ac ar ei ôl teulu Ifan Go' ac yntau'r *water bailiff*, John Tanybryn gyda'i deulu'n gyfan.

Wele fan draw, Gwini 'Refail-fach a'r bechgyn ac yn eu cwmni gwelwn Miss Davies (Mrs. Davies, Deganwy 'nawr), wedi dod yr holl ffordd o'r Castell gan gerdded drwy bentref Parc-y-rhos, pentref hollol uniongred lle nad oedd un Undodwr yn bod. Ac na foed i ni anghofio teulu Pant-y-byr, cartref y Prifathro. Wele hefyd, yn dod dan ei bwys ei hun, Johnny Pencaeau, a'r fan draw,

gŵr nad oes neb bron yn ei gofio 'nawr, Stephen Webley Parry ; y mae achos gennyf i'w gofio oblegid ar ei benglin y smociais i'r bib glai gyntaf—a'r ddiwethaf ! Peidiwn anghofio Pant-y-Fen a'r Gwastod, ac wedi gofalu bod lle iddynt hwy rhaid troi fy nghefn at Pencarreg a'm llaw i fyny, gan edrych tua "Teifi Castle". Y mae torf yn dod dros y rhiw a thrap yr Hendai, Coedeiddig, a'r man pellaf, Cwmcanol. Yn eu plith y mae teulu Rhoslwyn, Rhys Saer, Ty'n Rhos, Godre'r Glyn, Coedmor Fawr a theulu Talyfoel. Y ffordd yma hefyd y daw John Jones, Caeronnen a'r teulu a theulu Post Gwyn.

Yr oedd llawer o sôn am New York y dyddiau hynny ond nid New York yr Unol Daleithiau mohono. Cofiaf am William New York a minnau yn talu ymweliad ag Eglwys Gymraeg Llundain a Gwilym New York yn canu'r organ. O ie, rhaid mynd yn ôl i sgwâr Cwmann i weld Enoc Davies y Siop, (diacon ym Mrondeifi) yn myned, ac os oedd ei sbectol arian ar dro, yr oedd ei feddwl a'i galon yn berffaith union. Gwelwn hefyd deulu Sanders Cwmann yn troi allan ac o gil fy llygaid credaf i mi weld Rachel Ann Tafarn yn "gwylltu" am ei bod yn ddiweddar. Dyna'r pictiwr ddeugain mlynedd yn ôl. Hwy oedd " gwŷr y wlad dros y bont".

Deallaf fod rhai ohonynt wedi dod o Gaeronnen a Thy'nrhewl, ac yn eu plith "wŷr ochor draw'r mini", y rhai oedd yn arfer mynd ar gefn eu ceffylau trwy Lanybydder i Gapel-y-groes. Carwn petai rhywun yn chwilio'i gof a rhoi pwt o hanes "gwŷr y dref" yn yr hen amser.

"Arglwydd, melys ydyw cerdded
I gyfeiriad Seion fryn,
Lle y gwelwyd ein cyndeidiau
Yn finteioedd hardd cyn hyn."

"Dduw ein tadau, Dduw ein mamau,
Bydd i ninnau'u plant yn blaid."

Teulu Athrylithgar

Gan Cledlyn.

Yn yr oesoedd gynt fe fu ym mhlasau Ceredigion deuluoedd o uchelwyr dawnus, a wnaethant lawer, yn eu dydd, i ddyrchafn bywyd y werin bobl. Yn flaenllaw yn eu mysg y safai Llwydiaid Llanwenog. Eu preswylfod ydoedd plas gwych Llanfechan, ar lethr heulog yn nyffryn afon Teifi. Bu impiau o'r teulu hwn yn Uchel Siryddion Sir Aberteifi yn y blynyddoedd 1599, 1615, 1640,

1710, 1782 ac 1870. Hanent o gyff Rhodri Mawr, brenin Cymru gyfan, ac yn ystod y canrifoedd fe amlygodd amryw o'r teulu alluoedd disglair. Ymfudodd rhai o'r Llwydiaid yn gynnar i'r Amerig, a chawn mai un ohonynt, sef yr "Ardderchog David Lloyd" ydoedd Pen Barnwr talaith Pensylvania yn y flwyddyn 1730. Prif ddiddordebau yr uchelwyr hyn oedd Amaethyddiaeth, Milwriaeth a Llenyddiaeth, ond fe ddaeth un ohonynt yn enwog am ei aidd dros ryddid barn mewn diwinyddiaeth. Yr Hybarch Dafydd Llwyd o Frynllefrith oedd hwnnw. Yn ystod y cyfnod rhwng 1650 ag 1850, pan lethwyd yn llwyr, gan farweidd-dra, grefydd esgobol y llan ymhob plwy, y Dafydd hwnnw oedd un o brif genhadon yr achos rhyddid meddwl yng nghanolbarth Ceredigion. Tua'r flwyddyn 1756, fe weinidogaethai fel esgob ymron ar ran helaeth o'r sir, ac arno ef yr oedd gofal pump neu chwech o eglwysi Anghydffurfiol,—sef yn Llwynrhydowen ym mhlwyf Llandysul ; yng Nghrugmaen ac Alltyblaca ym mhlwyf Gwenog, a hefyd ym Mhenrhiw ac yng Nghiliau Aeron. Ar gyfrif ei ysgolheictod fe'i gwahoddwyd yn 1766, gan y Bwrdd Presbyteraidd, i fod yn athro eu coleg yng Nghaerfyrddin, ond fe nacaodd fynd yno, a hynny, meddir, ar gais rhyw chwech neu saith cant o aelodau ei eglwysi. Rhydd y Parch. T. Oswald Williams, M.A. yn ei lyfr *Hanes Cynulleidfaoedd Undodaidd Ceredigion*, ran helaeth o'r clod iddo am gadw allan genllif Calfiniaeth o ranbarth canol Sir Aberteifi, sef y darn o wlad a gyfenwir weithiau yn "Ysmotyn Du".

Gŵr galluog hefyd fel pregethwr ydoedd y Dr. Charles Lloyd, M.A., mab y Llwyd o Frynllefrith, ond yr oedd ef o natur rhy fyrbwyll i allu cydweithio yn hwylus â'r cynulleidfaoedd y bu'r gweinidogaethu yn eu mysg,—yn Lloegr ac yng Nghymru. Dywedir yn wir, mai trwy ymdrechion cenhadol y Dr. Charles Lloyd, yn bennaf, y sefydlwyd eglwysi Undodaidd Capel y Groes a Phant-y defaid. Tua'r adeg y codwyd y capeli hynny fe ddaeth y Doctor a'i deulu o Loegr i fyw yng Nghoedlannau Fawr, ym mhen uchaf plwyf Llanwenog yn 1800, eithr yn 1801 fe werthodd y lle a'r stoc, ac aeth yn ôl i Loegr.

Ymysg gwŷr talentog yn hannu o deulu'r Llwydiaid oL lanwenog fe ellir enwi'r awenydd melys, David Thomas, (Dewi Hefin), 1828—1909, a'r pregethwr huawdl, y Parch. David Gwynog Rees, Gellionnen, 1865—1934. Yn wir, yn fy hen blwyf genedigol i, sef Llanwenog, y mae gwaed uchelwyr plas Llanfechan yngwythiennau llawer o bobl bro Gwenog.

Soniais uchod am un o'r Llwydiaid a fu yn ben barnwr ym Mhensylvania, a phleser ydyw gennyf yn awr ddwyn ger bron enw y gŵr mwyaf athrylithgar efallai a ddaeth allan o hen gyff teulu Llanfechan erioed, yntau yn un o arch-adeiladwyr amlycaf Unol Daleithiau'r Amerig heddiw, sef Mr. Frank Lloyd Wright, mab i or-wyres yr Hybarch Ddafydd Llwyd o Frynllefrith. Cefais

fenthyg copi o *Auto-biography* Mr. Lloyd Wright gan un o hil y Llwydiaid, a fu'n athrawes gynorthwyol gyda mi pan oeddwn yn brifathro yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd, sef Mrs. Lizzie Ellen Evans, y sydd yn awr yn byw yn Llundain. Fel popeth ymron a ddaw allan o'r U.S.A., y mae'r *Auto-biography* ar scêl helaeth, neu, a defnyddio yr unig gymhariaeth y sydd gennym ni yn y Gymraeg i ddynodi llyfr o faintioli anarferol o fawr, y mae ' fel Beibl Peter Williams.' Ei gyhoeddwyr ydyw Duell, Sloan and Pearce, New York, ac fel hyn y mae yn dechrau :

"Back in Wales, in early Victorian days, there lived a hatter, a stalwart maker of strong, black, high-pointed cones. The Welsh wore them for hats. The hatter was proud of his hats, and peddled them at fairs. . . . On Sunday, the hatter preached,—a firebrand of a man,—questioning how man should be just with God, but neglecting the answers most men, and women too, would give him.

"He was tall, this Richard Jones, dark-eyed,—an impassioned, unpopular Unitarian. Mary Lloyd, the daughter of an old, wealthy Welsh family heard him, and fell in love with him. Her family looked askance at her man ; but what did that matter ? she loved and trusted him. His outspoken liberality offended conservative public opinion in Wales. America, however, seemed to him to be a hope and a haven, and, with his delicate wife and children, he came to the West in 1844 ; the fifth of his children was named Anna, and I am her son".*

**Gwel Ymofynnydd Tachwedd, 1952 am ragor o'i hanes—Gol.*

Y Cysgod

Gan D. Ll. Carrellio-Morgan, Ph.D.

Neithiwr, doi'r nos i Rydydail fel arfer ; eithr nid fel arfer y gwisgodd hi ei gŵn ddu am y perthi a'r cilfachau. Nid arni hi,—y nos, oedd y bai am hynny ; fy llygad ysbrydol i oedd ar dân yn hualau'r gwyll a dwyster yr-hwyr-yn-y-wlad oedd yn gwasgu holl bwysigrwydd y dydd a'i wres i grombil ebargofiant. Yr oeddwn i ar ôl,—yn hwyrach nag arfer yn gorffen fy niwrnod gwaith, a seiren leddf blinder yn swnio drwy lofft fy enaid.

Deuthum at y tro ; y tro peryglus hwnnw lle mae'r modur ar ei ore yn ceisio cadw canol y ffordd a'r reddf gyfrin honno yn ei ymysgaroedd poeth fel petai'n gwthio'i drwyn i lwnc perygl. Yno y gwelais y cysgol. Yr oeddwn wedi sylwi arno o'r blaen rai misoedd yn ôl a minnau'n dychwelyd gyda'r nos o Lanbedr. Sefais ; edrychais o'm cwmpas. Cysgod y dderwen hen oedd yn duo'r tro ; tyfai hithau yr ochr arall i'r clawdd ; ei brigau'n araf grino

gwedi hiroes yn cysgodi'r gwartheg a'r defaid ar nosau drycinog. Fe'i gadawyd i grino pan oedd ei chwiorydd yn lludw ers blynyddoedd.

Ac o'r cysgod hwn fe dyfodd cysgod arall ; cysgod nad adnabu'r dyn cyntefig ; cysgod na welwyd namyn ei gynffon yn y canol oesoedd ; cysgod yn gwasgu ar frest y ddynoliaeth oleuedig.

Ac yn y foment honno, fe chwareuodd blinder y triciau rhyfeddaf arnaf ; oblegid, erbyn hyn, yr oedd y cysgod yn fy nilyn o dro'r ffordd bob cam o weddill y daith.

A phan gytunais â'm corff i orffwyso, mi a'i gwelwn drachefn fel colofn hirgul yn ymrithio drwy'r blancedi ; bryd arall fel cwmwl ar dorri uwch fy mhen.

Nid cysgod oes mohono ; nid colofn farddol yn esgyn i galeri'r nos drwy bedair blanced ; nid cwmwl parddu yn bygwth ymrwygo i ddryllio cnawd ac esgyrn y dyffryn telaid, eithr ymdeimlad o agosrwydd a haerllugrwydd y drefn o feddwl na âd y ddaear yn ei blinder dyddiol i gysgu cwsg yr eryr ; na âd i ddyn brofi o dangnefedd y bedd gwedi dydd caled o waith.

Pan egyr dyn ei lygaid gyda'r wawr a phan noetho'r blaned ei hanner hi i dderbyn picellau'r haul, erys y cysgod. Y mae'n lledi ei adenydd hirddu drwy'r pentrefi ; yn ymestyn ei amrannau duon dros obeithion cynta'r dydd ac yn dilyn dyn i'w faes. Gesyd ei fawd trwm ar gopibwc yr efrydydd ; y mae'n llenwi Salem gwas yr Arglwydd. Nid yw pethau'n gwella ronyn am bump o'r gloch yr hwyr. Y mae'n dilyn y gweithiwr i'w aelwyd. Tyn allan y tân o lygaid y llanc pum-mlwydd. Y mae'r baban yn mynd i gysgu yn ei gwmni.

Pe holid tân a llwch y blaned am ei sylweddau, ni ddaw ateb o'r dwyster. Pe buasai i'r bargyfreithiwr cyfrwysaf ei feddwl groesholi'r nos hyd yr awr pan dry'r llwynog i'w wâl, nid oes yng nghoffrau'r gwyll un sill a rydd gysur i'r dyn ofnus.

Y cwbl oll a wyddom yw fod drws yr hen obeithion am wastadol hedd ar gau, a'r ddynoliaeth,—fel hen gybyddes hagrbryd yn syllu drwy'r ffenestr ar ofnus, gythreulgar fyd : ei dannedd sigledig mal polion duon yn ei phen a'i dau lygad yn bŵl ail dwy ffynnon wedi blino.

Y mae'r hen wreigan yn gwybod ; y mae hi'n deall, o bell, beth yw ansawdd y cysgod. Fe ŵyr hi, yn well na'r calendr, fod ei meibion wedi perffeithio'r fom Hydrogen ; fe ŵyr hi fod ei meibion yn chwarae â thân, eithr nid oes ynddi hi, bellach, mo'r gallu—na'r awydd hwyrach, i weiddi'n groch—"AROS" ! Ac am ei bod hi mor dlawd, mor ddiymgeledd ysbrydol yn ei thwlc, mor "how-do-you-do" yn ei hagwedd at ei byd ei hun; mor ddi-Grist yn ei chegin pryf-dyllog, af finnau, ail cyw blwydd yr eryr i glwydo'n nosol, a'r graig o dan fy mhen a'r yfory—ansicr eisys, yn dechrau serio fy nhalcen.

Santos

Y Parch. J. Seymour Rees, Seven Sisters.

Un noson o Haf, a hithau'n bwrw glaw'n drwm, penderfynais fyned draw i gartref Tomos Siams. Cefais ef yno wrtho'i hun, ac wedi siarad i lawer cyfeiriad, dymunodd arnaf i estyn cymwynas iddo. Yn ystod hir-nosau'r Gaeaf blaenorol, bu'n ysgrifennu hanes un o'i fôrdeithiau.

"Chi'n dyall," meddai, " 'chydig o ysgol gês i ariod, a llipa iawn yw Nghwmrag a'n Sysneg i. Felly, wy am i chi ddarllen y ngwaith i, a'i wella fe i edrych yn rispectal. Yn ddistaw bach, wy am hela'r stori ma i'r Ymofynnydd, a ma'r Golygydd am i châl hi'n weddol gymen".

Addewais innau wneud hynny, a dyma'r cyfan bellach yn ddiddorol iawn ar ôl symud y gwallau mwyaf, mi obeithiaf.

"Yn ffafriol iawn, ymadawsom â Chaerdydd yn gwmni o chwech o fechgyn Llangwymon ymysg y criw. Yr oeddwn wrth fodd fy ngalon am fod gennyf un o'm cyfeillion mynwesol, Shaci'r Cilgwgan. Ymfalchïwn hefyd yn fy nghyfle cyntaf i groesi Iwerydd. Am dri niwrnod cawsom wynt teg o'n tu i'n gyrru allan i berfedd y môr. Wedyn, daeth cyfnewidiad. Safasom yn yr unfan am ddiwrnod cyfan heb fedru symud nemor ddim ond yn araf gyda'r cerrynt. Yr oedd yr hin yn gynnes, a'r môr yn llyfn fel llyn yn ymestyn dros y gorwelion. Cafwyd cyffro yn fuan a hynny yn fendith oherwydd prinder bwyd.

I'r gorllewin o Ysbaen, ac yn agos i ganol y cefnfor y mae nifer o ynysoedd bychain o'r enw Azores. Galwyd yno a chawsom ddigon o luniaeth ar gyfer gweddill ein taith.

Hwyliwyd i'r De. Daethom i eangder o fôr ar fyr a hwnnw'n ymddangos yn hynod o fàs. Mae'n debyg nad oedd yno fawr o ddyfnder na cherrynt, ond digonedd o wymon. Tarawyd fi â syndod gan hyn am ein bod bellach ynghanol Iwerydd.

Y man nesaf inni aros ynddo oedd Ynysoedd Cêp Ferdi. Dadlwythwyd rhan o'n glo. Ymddangosai'r bryniau yno fel gwylwyr a noddwyr ym mherfeddion y môr. Dinas noddfa a llety'r gymwynas a fu'r lle hwn i gannoedd o longau yn oriau eu cyfyngder.

Erbyn hyn teimlwn yr hin yn cynhesu. Ni synnwyd fi at hyn wedi clywed y gorweddai cyfandir Affrica i'r chwith, er na fedrem gael arwydd ohono yn unman. Aroswyd am ddiwrnod a hanner yng nghysgod yr Ynysoedd, a rhoddwyd caniatâd inni i lanio. Ymddangosai'r lle yn doreithiog am fod llysiau a choedydd godidog yn tyfu ar y llechweddi.

Codwyd hwyliau gan arfaethu croesi'r "Lein" ar fyr dro. O bryd i'w gilydd, clywais lawer o sôn am y cyhydedd a'r ddefod ddoniol honno a weinyddir ar forwyr ieuainc sydd yn ei groesi am

y tro cyntaf. Gan fy mod innau ymysg y cyfryw ddosbarth teimlais yn dra phryderus.

Ar awr arbennig, ac yn hollol ddirybudd, bu cyffro mawr ar y dec. Cyn nemor o amser sylweddolais beth oedd ar ddigwydd. Daeth tri dyn ymlaen at ddau ohonom. Siaradent mewn iaith ddieithr. Ymwisgent mewn dillad gwynion llaes o'r corun i'w sawdl. Yr oedd iddynt farfau hirion, a hyll oedd eu pryd a'u gwedd. Cyfieithiodd un o'r morwyr eu neges i ni. Mynegwyd y dymunai y Tad Neifion gael ein cwmni am ychydig amser. Nid oedd gennym yr un hawl i wrthod y cais. Felly aethom i ben pellaf y llong. Yno, gwelais hanner cylch o ddynion dieithr eu golwg, a dŵr yn llifo trostynt. Yn y canol safai tair sedd wag.

Ar y funud nesaf dyma dri yn ymddangos dros flaen y llong, ac yn cerdded yn urddasol i eistedd ar y cadeiriau gweigion. Yr un pwysicaf ohonynt oedd y Tad Neifion, a'i osgo'n rhwysgfawr fel brenin. Yn arwydd o'i swydd, chwifiai yn ei law dryfer haearn. Am ei wddf yr oedd cadwyn drwchus o gregyn a gwymon y môr yn dorchau gwynion am ei gorff lluniaidd. Y tu ôl iddo cerddai ei ferch fel tywysoges o weddus, a dŵr y môr yn diferu dros ei dillad. Wrth ei hymyl, deuai meddyg yn dwyn stethoscôp yn un llaw, a blwch mawr yn y llall yn llawn o bils.

Wedi iddynt ill tri eistedd yn fawreddog, codwyd gwaedd uchel i gyhoeddi wrth y capten fod y Tad Neifion wedi cyrraedd y bwrdd. Ar ôl i hwnnw ddod o'i gaban yn drystiog gofynnwyd iddo estyn enwau'r morwyr ar y llong a groesai'r Lein am y tro cyntaf. Derllyn yntau ein henwau gan ychwanegu rhai manylion.

Yn nesaf arweiniwyd ni gan genhadon Neifion yn agosach at yr hanner cylch. Daeth y meddyg i lawr atom, a gwneud ymchwiliadau ynglŷn â chyflwr ein corff, a chydio ymhob aelod ohono. Wrth ein cael yn deilwng o fod yn ddinasyddion o hanner ddeheuol ein byd, ercha i ni lyncu tair pilsen wedi eu cymysgu o sebon meddal a fflŵr.

Cododd Neifion o'i gadair, a llefarodd air neu ddau o orchymyn i'w weision. Ufuddhasant ar unwaith gan ddwyn o'r fforcasl fwced anferth yn llawn o ddŵr sebonllyd, cyllell bren hir a brws ysgubol ei faint. Galwyd arnaf i eistedd yn y gadair wag, ac wedi i Neifion eto lefaru geiriau anghyfarwydd i mi, cydiodd yn y brws, gosododd ef i waelod y bwced gan droi ei gynnwys yn ofalus. Cododd ef yn diferu o wlybwr gwyn, a chuddiodd fy wyneb ag ef. Yna eilliodd fi yn drafferthus ond ag urddas teilwng cyn fy ngollwng ymaith wrth fwmian brawddegau hirion na ddeellais o gwbl.

Gwelais fy nghydymaith dan yr un driniaeth. Wedyn cariwyd llestr enfawr i'r canol. Ynddo yr oedd dwfr glân o'r môr. Gosodwyd ni, yn un ar ôl y llall, i mewn ynddo gan ein troi ben dros sawdl. Ar derfyn hyn, estynnwyd inni dystysgrifau yn arwyddo ein bod weithian yn ddeiliaid o hanner ein byd sydd ddeheuol i'r

cyhydedd. Areithiwyd i ni eto gan Neifion, mewn Saesneg y tro hwn, i ddymuno'n dda i ni yn ein braint newydd, ac i apelio am deyrngarwch i draddodiadau gorau y gwir a'r anrhydeddus forwr. I ddiweddu'r ddefod estynnwyd inni ddogn helaeth o gwrw cryf nes ein bod ill dau yn chwil-ulw-gabi-rwch. Beth bynnag am hynny, ar ôl oriau o gwsg trwm yn fy mwnc yn y fforcasl, dihunais yn forwr cyflawn, a thystysgrif Neifion yn brawf diymwad o hynny.

Wedi'r digwyddiad daethom i ymyl olion yr afon fwyaf yn y byd, sef Amazon. Methwn yn lân â deall beth oedd yr achos am y darnau coed a'r dail aneirif a nofient o'n cylch ymhob man. Yr esboniad a gefais oedd mai'r afon a'u gyrrent hwy allan i'r môr.

Galwasom ym Mhernambuco am fod gennym ychydig o nwyddau i'w dadlwytho. Yr oeddwn yn falch i gael yr olwg gyntaf ar Dde America. Cafwyd tipyn o drafferth i lanio am na ddeellid ein harwyddion yn iawn gan yr awdurdodau. Porthladd gwael oedd yno ac yn llawn o longau. Adeiladwyd y dref yn afluniaidd i drigolion o bob llwyth a lliw, a hwythau'n ddioglyd iawn. Tyfai'r palmwydd a choedydd prydferth i harddu'r llethrau ymhob man. Gwelais flodau persawr hefyd.

Nid oeddwn yn flin i ymadael â Phernambuco ar lawer cyfrif. Un peth a'm diflasodd oedd i forwr o'n mysg gael ei glwyfo mewn tafarndy. Bu cweryl rhyngddo ag un o'r trigolion. Tynnodd hwnnw gyllell allan gan ei anafu yn dost.

Am y gweddill o'r fordaith, hwyliasom yn weddol agos i dir. Yr achos am hynny oedd y cyfiwr a elwir yn "South East Trade Winds". Ni chlywais erioed y fath sŵn gan wynt yn fy mywyd o'r blaen. Yr oedd yn ofnadwy o fygythiol, a threuliasom amser pryderus mewn ofn y cawsem flas corwynt.

Pasiwyd heibio i Bahia, hafan pwysig ar y ffordd i Rio de Janeiro. Mewn ychydig ddyddiau cyrhaeddasom yno. Trowyd i mewn i'r porthladd dwfn a phrydferth. Sylwais ar un o'r morgloddiau cadarnaf a welais erioed. Yn ei gysgod a estynnai heibio i'r genau yr oedd lle godidog iawn. Cafwyd llongau dirif yn llochesu ynghanol y ceinder. Adeiladwyd Rio ar y llethrau, y naill heol ac ystryd yn sefyll uwchben y llall. Yma eto yr oedd coed preiffion ac iachus yn harddu pob mangre. Caniatawyd inni lanio am ddwyawr er mwyn inni drosglwyddo llythyrgodau. Yr oedd y tywydd yn annioddefol o dwym fel mai nid syndod oedd cael y trigolion mor ddiegni. Y mae Natur yma cyn garediced nes creu segurdod. Deuai holl gynnyrch Brazil i lawr i Rio.

Hwyliasom am ychydig amser cyn cyrraedd pen ein taith yn Santos. Credais yn wir ar ôl tynnu'r llong at y cei a chael gorchymyn caeth i beidio â glanio, bod rhyw drychineb ar ein gwarthaf. A chywir oedd hynny. Cerddai'r clefyd melyn yn drwm iawn drwy'r dref gan yrru ugeiniau i'w bedd bob dydd.

Nid oedd hafan Santos i'w gymharu â Rio. Lle agored ac anniben ydoedd. Pobl nwydwyllt ac o natur ladronllyd oedd y preswylwyr. Tybia rhai mai effaith i lwyodraeth lem Ysbaen arnynt oedd hyn. Ar gyfrif y gwres tyfodd y bobl hyn hefyd yn ddioglyd. A hawdd oedd gweled olion o hyn wrth fwrw golwg ar gyflwr y wlad. Tyfai ffrwythau o bob math, a gwenith teg yno. Yr oedd coed gwerthfawr yn llenwi'r cymdogaethau. Brithid y llechweddau gan erddi a dyfai goffi yn doreithiog ar erwau o dir. Ni welais yn unman brydferthach adar nag yma. Yr oedd eu lliwiau yn eithriadol o dlws.

Dadlwythwyd ein glo, a chymerwyd i mewn lwyth o goed celyd ar gyfer gwneud dodrefn. Cyn inni orffen y gwaith bu llawer o'r dwylo'n glaf. Ni fu eu cystudd yn faith oherwydd syrthiasant dan ddyrnod y clefyd melyn. Wedi iddo ddod i'n llong ni fu'n hir cyn cydio ym mhawb ag eithrio Shaci a minnau. Yn wyrthiol yr arbedwyd ni.

Nid yn hawdd yr anghofiaf y profiadau a gawsom ein dau yn Santos. Dywedais o'r blaen fod y trigolion yn lladron peryglus. Y canlyniad oedd inni benderfynu aros bob nos i wylio ein llwyth. Trwy gymorth dau gi cryf a gynnau llwyddwyd i gadw pethau mewn trefn yn weddol. Ymosodwyd arnom ar ddau neu dri achlysur, eithr gorfodwyd y gelynion i gilio bob tro. Dan y fath amgylchiadau y peth pwysicaf i Shaci a minnau oedd ymadael cyn gynted ag y ceid capten a digon o forwyr. Chwiliwyd yn fanwl. Ymhen tridiau llwyddasom. Rhoddwyd benthyg un o swyddogion llong o Brydain i fod yn gapten. Casglwyd y gweddill o'r criw trwy fawr drafferth.

Ar ôl hwylio bu helbul ar ben trwbl. Haid o feddwon oedd y dwylo, a'r capten y pennaf ohonynt. Cuddiasant gwrw a gwinoedd yn y llwyth mewn gwahanol fannau. Trwy drugaredd, bu'r gwynt yn deg dros bellter o'n taith. Disgynnodd y baich trymaf o'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau Shaci a minnau. I waethygu'r cyflwr daeth digwyddiad alaethus i'n rhan. Bu un o'r bechgyn gorau a feddem farw ar rybudd byr, a ninnau ymhell o dir.

Rhoddwyd baner ar hanner y mast yn arwydd i longau eraill.

Yna, ar unwaith rhoddwyd corff y truan mewn sachau a wnïwyd yn dyn amdano. Yr oedd pwysau trymion wedi eu clymu wrth y godre. Codwyd dwy astell wrth ochr y llong, a gorweddodd y corff arnynt dan yr Union Jack. Tynnwyd peth o'r hwyliau i mewn er mwyn arafu ein camre. Yna, daeth y morwyr i gyd at ei gilydd i wrando arnaf yn darllen Gwasanaeth Claddu o Lyfr Gweddi Gyffredin. Ceisiodd Shaci a minnau ganu ynghŷd yr emyn adnabyddus : "Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau". Wrth fy mod yn cyhoeddi : "Dyfnder i Ddyfnder", gollyngwyd y corff i lithro'n dawel dros y ddwy astell a disgyn mewn distawrwydd i'r môr.

Ni anghofiaf hyd fy nydd olaf sŵn rhyfedd y tonnau wrth agor y

dyfrllyd fedd. Gwelais a chlywais droeon y corff hwnnw ar ei daith yn mynd yn is ac yn is at ei wely diwethaf.

Dyna angladd ! Ni wylai neb ymron ei ddagrau o hiraeth. Pell oedd siom tad, a gofid mam. Dychwelodd y giwaid ddiystyr eto at ddiod a rhegfeydd.

Hwyliwyd ymlaen fel pe i ddim neilltuol ddigwydd. Croeswyd y cyhydedd gan alw wedyn yn Ynysoedd Cape Verdi. Am yr ugeiniau o'r milltiroedd nesaf ni welwyd llong yn unman. Dim ond môr a ledai o orwel i orwel heb yr un hwyl wen ar draws y darlun. Clywyd si môr, nodau awel a rhegfeydd arswydus y criw. Torrodd storm ofnadwy arnom. Trwy drugaredd cadwodd Shaci a minnau bethau i fynd yn lled dda. Aeth y capten yn afreolus yn ei feddwdod, a bu raid inni ei glymu wrth yr hwylbren yn garcharor. Rhyddhawyd ef wedi inni alw yn Azores. Yno, gwelsom ddwylo llong o Brydain a ddrylliwyd yn yr ystorm ddiwethaf a gawsom. Gyda pharodrwydd, caniataodd Shaci a minnau iddynt ddychwelyd ar fwrdd ein llong ni. Bechgyn ardderchog oeddent bob un, ac o werth mawr i ni dros weddill y daith i Gaerdydd.

Y Cyrddau Blynyddol

Bore ddydd Mercher, dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. J. Islan Jones, M.A., ac yna cynhaliwyd Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas, a'r Parch. Brifathro J. D. Jones, B.A., B.D., Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, yn llywyddu, a thriniwyd pynciau amrywiol mewn perthynas i eglwysi'r Gymdeithas. Llongyfarchwyd y Parch. T. O. Williams, M.A., ar gael ohono'r anrhydedd o'i ethol yn "Ddinesydd Rhydd" o fwrdeisdref Llanbedr. Ystyriwyd y cwestiwn o bulpudau gweigion rhai o eglwysi'r Gymdeithas, a phenderfynwyd apelio at yr eglwysi sydd heb weinidogion i ymgynghori â'r disprwywyr a apwyntiwyd gan y Gymdeithas i'w cyfarwyddo.

Hefyd, daeth y mater o gyflogau'r gweinidogion o dan sylw. Darllenodd yr Ysgrifennydd, y Parch. S. E. Bowen, y cynllun a gymeradwya'r Gymdeithas Gyffredinol yn Llundain, a chafwyd ar ddeall fod eglwysi Llandysul a Phantydefaid wedi mabwysiadu'r cynllun yn barod ; a bod dwy arall ar fedr gwneuthur hynny. Penderfynwyd gwasgu ar y cynulleidfaoedd nad ydynt eto wedi symud yn y mater i roddi ystyriaeth ddwys i'r cyfrifoldeb yn y cyfeiriad hwn. Apwyntiwyd dau bwyllgor at y gwaith o ddwyn allan lyfr emynau a thonau newydd at wasanaeth yr Ysgol Sul—un pwyllgor i ddewis emynau, a'r llall i ddewis tonau, a'r Parch. J. Marles Thomas, M.A. i alw'r pwyllgorau ynghyd.

Cynigiwyd ein bod ni i drefnu un bregeth yn unig i bob cyfarfod o'r Gymdeithas yn lle dwy yn y dyfodol. Ni dderbyniwyd y cynnig am y rheswm bod dwy bregeth o hyd cyffredin yn fwy tebyg o fod yn dderbyniol a bendithiol nag un bregeth hirfaith i gymryd oedfa gyfan.

Yn y fan hon o'r rhaglen galwodd y Llywydd ar Lywydd y flwyddyn ddyfodol i'r gadair, a chymrodd y Cynghorwr Griffith Davies, o Gapel y Llwyn, yr awenau yn ei law.

Derbyniwyd adroddiad Prifathro Coleg Caerfyrddin ar waith ein myfyrwyr yno, a llongyfarchwyd Mr. Elwyn Davies ar ei lwyddiant yn ennill y radd o B.A., yng Ngholeg Prifysgol Abertawe. Bydd ef yn dechrau ar gwrs B.D. yng Nghaerfyrddin yn yr Hydref. Bydd Mr. Watkin Davies yn parhau gyda'i efrydiau yng Nghaerfyrddin am flwyddyn eto ; a bydd Mr. Caradog Evans, o Ysgol Ilston, yn dechrau ar ei gwrs o bedair blynedd yng Nghaerfyrddin yn yr Hydref. Bwriada Mr. B. L. Hopkin aros am flwyddyn eto yng Ngholeg Manceinion, Rhydychen. Y mae yn awr yn treulio rhan o'i wyliau yng ngwaith y weinidogaeth yn Lewin's Mead Bryste (student pastor).

Pasiwyd y grantiau arferol i'r Cwm, Caerfyrddin, Aberystwyth a Phanteg.

Etholwyd Mr. Isaac Hopkin, Trebanos, yn is-lywydd, a'r swyddogion eraill i barhau yn eu swyddi am y flwyddyn : ysgrifennydd, y Parch. S. E. Bowen ; trysorydd, Mr. D. G. E. Davies, Y Faerdre. Diolchwyd yn wresog i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Newyddion yr Enwad

RHODD HYNAFGWR.—Go brin y gall unrhyw gylchgrawn Cymraeg ymffrostio fel y gall Yr Ymofynnydd heddiw bod ganddo ddarllenwr sydd wedi ei ddilyn am bedwar ugain a phedair o flynyddoedd. Y mae David Davies, Fern Lea, St. Alban's Avenue, Caerdydd (gynt o Ystrad a Phontypirdd) wedi croesi ei bedwar ugain a deg ers tro ac wedi darllen Yr Ymofynnydd oddi ar 1870. Yn anffodus, collodd ei olwg yn ddiweddar ac wrth ffarwelio a'i hoff bapur yr oedd am ddangos ei ddiolchgarwch am iddo allu ei weld a'i ddarllen cyhyd. Rhoes dair punt at yr 'achos' fel y gallo eraill barhau i gael y mwynhad a fu'n eiddo iddo ef am gymaint o flynyddoedd. Y mae Mr. Davies mor sionc ei droed a'i feddwl ag erioed, a gobeithiwn lunio pennod o'i atgofion toreithiog pan ymwelwn ag ef y tro nesaf. Bendith arno ac ar gyfaill arall "Dienw" a ddanfonodd bunt i Swyddfa Gwasg Gomer.

CWRDD CYMRAEG YN EIN PRIFDDINAS.—Fel yr awgrymwyd o'r blaen ceisir casglu cynulleidfa o Gymru ar brynhawn Sul y ddegfed o Hydref yn West Grove, Caerdydd am hanner awr wedi tri â'r Golygydd yn pregethu. Os oes gennych gyfeillion yn y lle, rhowch air o'i blaid. Y mae'n bwysig i ni gael Cwrdd Cymraeg yn ein prifddinas a phwysig hefyd i gael canolfan arall i ddosbarthu'r Ymofynnydd. Ceir manylion am gwrdd y mis nesaf pan ddônt i law.

CWRDD DIOLCHGARWCH HEN DY CWRDD TRECYNON.—Cynhaliwyd ein cyfarfodydd diolchgarwch eleni ar y Sul olaf ym Medi a Mr. Elwyn Davies, B.A. yn gwasanaethu. Dyma'r tro cyntaf iddo wasanaethu mewn cyfarfod o'r fath a mawr oedd y canmol ar ei waith a'i bregethu

grymus. Gwisgwyd y capel â ffrwythau a blodau gan y gwragedd a gwasanaethwyd wrth yr organ yn y tri gwasanaeth gan Mr. W. Jones, A.L.C.M., Cwmdâr. Ymunodd cynulleidfa Highland Place yn y gwasanaeth prynhawn,

YN EISIAU : CEIDWAD TY CAPEL.—Y mae tŷ capel Ciliau Aeron yn wag ac y mae'r gynulleidfa yn awyddus i dderbyn ceisiadau oddi wrth bobl a fyddai'n barod i gymeryd y swydd a'r tŷ helaeth sydd at wasanaeth y ceidwad. Danfoner am fanylion at Mr. Timothy Jonathan, Hampton House, Ciliau Aeron, Lampeter, Cards.

CYMERIADAU'R PASIANT.—Gwelir hanes y Pasiant a gynhaliwyd ym Mhantydefaid yn nes ymlaen a rhoddwn yma restr o'r rhai a gymerth ran. Côr Capel-y-Fadfa : Maureen Williams, Barbara Davies, Hefina Griffiths, Sali Davies, Sali Jones, May Jones, Beti Evans, Rhiannon Jones, Doreen Evans, Emlyn Jones, Ronnie Jones. Deialog ar y llwyfan bach : Mrs. Jones, Rhydowen Fach ; Eileen Evans, Marion Davies, Eilir Jones ac Alan Brown. Y gwahanol gyfnodau : Mary Thomas a Margaret Evans, Graig ; Hilary ac Ann Jonathan, Ciliau ; Elsa Thomas, Olwen Davies, Lyn Jones ac Emma Williams, Caeronnen. Golygfa ar glos Pantgwyn : Noel Davies, Edward Davies, John Davies, Mrs. Mary Jones ; Dawnswyr : Phyllis a Dulcie Desmond, Ann Evans, Sali Davies, Gillian Evans ac Enfys Williams (o'r Graig). Golygfa y Troad Allan : Noel Jones, Jack Jones, Edgar Jones, James Jones, Ernie Hatcher, Ann Davies, Elsie Jones, Megan Jones, Rita Evans, a Daff Jones (o'r Llwyn). Cymeriadau Haul y Bore : John Jones (Graig), Caradog Evans (Bwlch), a Pegi Evans (Pantydefaid). Ysbryd y Gorffennol : Rhiannon Jones (Bwlch). Ysbryd y Presennol : Matilda Thomas, Horeb a Morfudd Thomas (Graig) oedd Ysbryd y Dyfodol. Cysegru'r Allor : Ann Jones, Jessie Jones (Llwyn) ; Nannie Davies, Delphine Brown (Pantydefaid) ; Gaynor Davies (Graig) ; Alun Evans a Richiard Jones (Llwyn) ; Terry Brown, Ken Crabbe, Eirwyn Evans, Jamse Thomas, (Pantydefaid). Ysbryd y dyfodol : Marian Davies (Llwyn) a Jil Thomas (Pantydefaid). Yr Addoli Dirgel : Ann Williams, Morina Thomas, May Griffiths, Brenda Jones, John Williams, Jeffrey Jones, Peter Davies, Ieuan Evans, Meirion Davies a'r addolwyr yn yr ysgubor oedd Rosa Evans, Nansi Evans, Joan Evans, Sali James, Margaret Edwards, Bessie Davies, Annie Morgan, Ted Jones, Terwyn Davies a'r Parch. Islan Jones (o Frondeifi) ; Audrey Chaney, Nell Davies, Ogwen Evans, Rayan Lloyd, Glenda Evans, Rachel Jenkins, Helena Evans, Mair Jones, Elin Jones, Caryl Elias, Brynmor Morgan, Brian Davies, John Evans a Geraint Lloyd (o Gapel-y-Bryn). Llwyfanwyr : Mrs. Marles Thomas, Miss Sali Davies, Miss Ellen Thomas, Misses Evans, Dedwyddfa, Miss Evans, Blue Bell, Nellie Jones, a Miss S. A. Jones.

Y Pasiant

(HANES UNDODIAETH YN SIR ABERTEIFI)

Dyma ni, fel Undodiaid wedi cyrraedd "carreg filltir" arall yn ein hanes, o leiaf yn hanes Maes Llafur Ysgolion Sul y Sir. Y mae'r rhai a fu yn Festri Pantydefaid ddydd Sul, Medi 12, 1954 yn ymwybodol o hynny, a cheisiaf innau trwy gyfrwng geiriau ddangos i'r anffodusion hynny na fuont yno, paham y sonnir am "garreg filltir" yn ein hanes.

Buom fel enwad yn dilyn yr hen rigolau yn ddigon hir, ac er bod ambell Ysgol Sul wedi bod yn fwy blaengar na'r lleill yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma, eto'i gyd pur hen ffasiwn yw'r dulliau o gyfrannu addysg yn ein Hysgolion Sul.

Pan ddaeth y Parch. J. Marles Thomas, M.A. yn ôl i'r Sir o Gefncoed, gwelsom ei fod wedi cael profiad pur helaeth gydag ysgrifennu a chynhyrchu Pasiant Crefyddol yn ei eglwys. Bu Pwyllgor yr Ysgolion Sul yn trin a thrafod y priodoldeb o gael Pasiant felly i'r Ysgolion, ac yn y diwedd "mentrwyd arni". Ffrwyth y fenter hon a gafwyd ar lwyfan Pantydefaid, ac er na fu hi'n bosibl cynnwys yr Ysgolion i gyd y tro hwn, daw tro'r lleill eto rywdro.

Testun y Pasiant oedd "Hanes Undodiaeth yn Sir Aberteifi," gyda'r Isdeitl tarawiadol iawn "Goleuo'r Gannwyll". Fel y datblygai'r Hanes ar y llwyfan, gwelid y gannwyll yn tyfu yr un pryd yng nghefn y llwyfan.

Pan agorwyd y llenni gwelwyd pedwar plentyn yn chwarae. Daeth y Dehonglydd i mewn atynt, ac wedi crybwyll mai hwy fyddai'r llinyn arian a glymai'r gwahanol olygfeydd wrth ei gilydd, aethant i lawr i lwyfan bach wrth ymyl y llwyfan mawr, lle buont trwy gydol y perfformiad,—Y Dehonglydd yn dadlennu'r cynllun yn effeithiol odiaeth, a'r plant yn cynorthwyo yn naturiol dros ben.

Wedi i Gôr bach gyd-adrodd darnau addas o'r Beibl, daeth dwy ferch yn cynrychioli "Cyfnos" i sôn am y cyfnod pan na cheid rhyddid i addoli Duw. Diweddglo'r Act gyntaf oedd yr olygfa yn Sgubor Beiliau, Cellan ac Ifan Rhydderch yn cael ei ddwyn i'r Ddalfa am gynnal Gwasanaethau yn y dirgel.

Cychwynwyd yr Ail Act trwy gysylltu y cyfnod hwnnw â chyfnod y wawr yn torri gan gymeriadau'r llwyfan bach, a daeth dwy "Gwawr" i ddangos fel yr oedd y tywyllwch yn dechrau rhoi lle i'r goleuni mewn syniadau crefyddol.

Yn yr ail olygfa ar glôs fferm Pantgwyn ar y ffordd i Bantycreuddyn, gwelwyd y plant yn chwarae, a Jenkin Jones yn ymddangos ar y llwyfan yn sôn am y rhwyg ym Mhantycreuddyn a'i benderfyniad i gychwyn yr achos Arminaidd ar dir y Wernhir.

Croesawodd dwy "Haul y Bore" dri chymeriad i'r llwyfan ; ynghyntaf Gwas Dafydd Llwyd Brynllefrith i sôn am gyfraniad y gŵr mawr hwn i'n hachos. Yn ei ddilyn ef un o fyfyrwyr Dafydd Dafis, Castellhywel, i ddangos

ei ddyled i un a oedd o flaen ei oes yn ei syniadau crefyddol ac addysgol. Ac yn olaf, morwyn Lloyd Jac, i dalu teyrnged i'w hen feistr Dafydd Jenkin Rees, a fu'n lletya cnwogion ein henwad yn y cyfnod hwnnw, megis Tomos Glyn Cothi a Iolo Morganwg.

Cymeriadau'r llwyfan bach wedyn yn sôn am wŷr y cyfnod a'u syniadau yn datblygu tuag at Undodiaeth. Yna "Haul Canol Dydd" yn sôn am Gwilym Marles i'n paratoi gogyfer â golygfa'r "Troi Allan" o'r Hen Gapel ar Sgwâr Alltrodyn.

Ar y llwyfan bach olrheiniwyd hanes cynulleidfa'r Llwyn hyd at Godi'r Capel newydd, a thwf y mudiad o fewn y Sir gan enwi'r gweinidogion o'r adeg honno hyd yn awr.

Galwodd "Ysbryd y Gorffennol" ar "Ysbryd y Presennol" i'r llwyfan, ac ar ei galwad hi ymddangosodd chwech o fechgyn yn cynrychioli Gwirionedd, Rhyddid, Cyfiawnder, Gwasanaeth, Goddefgarwch, a Rhinwedd i gysegru'r allor. Dilynwyd hwy gan chwech o ferched, Ffyddlondeb, Gobaith, Cariad, Ffydd, Gwaith ac Ymgysegriad ; hwythau hefyd yn cysegru eu hunain i'r achos, trwy roddi ysgub, telyn, allwedd, angor, cryman, a'r olaf lamp ar yr allor.

Galwodd "Ysbryd y Gorffennol" ar "Ysbryd y Dyfodol" i'r llwyfan gyda dwy ferch fach yn osgordd iddi, a chymeriadau Cyfnos, Gwawr, Haul y Bore a Haul Canol Dydd yn cymryd eu lle ar ddwy ochr y llwyfan. Pan ail-osodwyd yr offrymau wrth draed "Ysbryd y Dyfodol" yn urddasol a defosiynol, a'r olaf yn goleuo ei lamp wrth ei chyflwyno iddi, 'roedd y 'cyfan wedi cyrraedd yr uchafbwynt. 'Roedd y Côr bach a fu'n canu darnau pwrpasol droeon yng nghefn y llwyfan, a'r tableau i gyd yn ddarlun cwbl orffenedig o flaen llygaid y gynulleidfa. Daeth llais o'r tu ôl i'r llenni (llais y cynhyrchydd oedd) yn cyhoeddi'r fendith ar yr holl weithrediadau.

Gwelir felly fod ein dyled i'r Parch. J. Marles Thomas yn fawr iawn am ysgrifennu a chynhyrchu'r Pasiant—gorchest fawr yn wir.

Rhoddwyd i'r gynulleidfa ddarlun byw o orffennol ein Mudiad, a'r gannwyll yn simbol o'r twf. Tynnodd y portread byw a gafwyd o'r "Troad Allan" yn y Llwyn ddeigryn i lawer llygad, ac erys y Tableau ar y diwedd yn brofiad byw inni am amser maith.

Diau y gallasai'r critig weld ambell nam ar y perfformiad, ond o gofio mai cywaith cynifer ag wyth o Ysgolion Sul oedd, anghwrteisi fuasai sôn am frychau. Gwell o lawer dywedyd inni gael perfformiad a haedda ganmoliaeth uchel—portread a hir gofir. Do, bu'n werth y llafur a'r aberth, a hyderwn mai hwn fydd y cyntaf o gyfres o berfformiadau tebyg, oherwydd gwelwn yma Wawr cyfnod newydd yn hanes ein Hysgolion Sul, a hedyn twf yn ein cynlluniau dysgu ynddynt.

"Eraill a lafuriasant, a ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwy."

"Dduw ein Tadau, Dduw ein Mamau,
Bydd i ninnau'u plant yn Blaid."

S. H. Davies.

Y SIPSI.

Pentewyn rhwng pîn tawel—a naws ia
Oernos hir dros orwel,
Yntau'n ddistaw, a'r awel
Yn y gwŷdd yn pwyo'n gêl.

O'i hynt drwy'r oerwynt a'r eira—y daw
I'r goedwig am noddfa,
Pan fo cledd oerwedd yr ia
Ar y gewyn drwy'r gaea'.

O foel i foel gyda'i fen,—i labrinth
O lwybrau wrth elfen
Y gŵr hylaw a llawen,
Nad yw'n bla ar Walia Wen.

Ei dwrban crand a glandeg—a'i wyneb
Sy geinwych bob adeg ;
Er y twrf, rhown chware teg
I'w ddirybudd Arabeg.

Ei foddion heb grefydda—yw ei gred
Yn y groes ddynoda
Ffydd gyfrin y dewin da,
A nodded meibion Adda.

O du'r hedd na wader iddo—y clod
Am gi clên i setlo
Adyn brwnt ;—ni chodai'n bro
Ail i "fyngrel" Avengro'.

Er adwyth, mae'n garedig.—I'w enaid
Mae'r rhinwedd cyntefig ;
Ni chwif ddwrn, ni chofia ddig
Hen neuaddau anniddig.

O'i fyned mal y rhedyn—i waeledd,
Try'r eilwaith yn blentyn :
Mewn oer gôb min eira gwyn,
Rhodd ydyw i'r pridd wedyn.

Aberystwyth. D. Ll. CARELLIO-MORGAN.

Y Cwpwrth Llyfrau

Y Genhinen (Haf 1954), Gwasg Aberystwyth, pris 2/-.

Rhifyn Elfed yw hwn yn fwyaf arbennig ac fe geir pedair ysgrif ar yr hen wron gan wŷr amlwg. Clywsom eisoes am waith da'r *Dysgedydd* yn yr un maes a rhwng y Dysgedydd a'r Genhinen Haf cewch gofiant teilwng a darlun pur lawn o Elfed fel bardd, emynydd ac un o ffigurau mwyaf yr Eisteddfod. Digon yw dywedyd fod Crwys, Thomas Parry, Cynan a Ben Davies yn ysgrifwyr sy'n edrych ar y gwrthrych o wahanol onglau a phob un ohonynt llawn mor ddiddorol â'r llall. Yn yr un rhifyn y mae R. T. Jenkins yn ysgrifennu ar D. R. Hughes yn hynod ddifyr yn ôl ei arfer. Clod i'r ddau olygydd am gadw safon mor uchel ac i'r argraffwyr yn arbennig am gynhyrchu lluniau mor lân o Elfed a D. R. Hughes. Dengys gelfyddyd ar ei gorau.

Y Crynhoad (Rhifyn Haf 1954), Gwasg y Brython, Lerpwl ; 1/6.

Dyma rai o'r testunnau : "Cyfoeth mewn glo", ysgrif sy'n rhoi dadansoddiad manwl o'r nwyddau a geir o'r diamwnd du. Rhyfedd gwybod y gellir cael sacarin a T.N.T., neilon a lliwiau o'r nwydd rhyfedd hwn. Mwynheais hefyd ddarllen hanes ' Gwasg John Penry,' a'r ysgrif ar Llewelyn Williams ynghyd â'r degau o fanion sy'n gwneud y cylchgrawn yn lond poced o hwyl a gwybodaeth.

Harri Rhydderch, Nofel gan R. J. Kendall, Gwasg Aberystwyth, 128 tud., pris 6/-.

Gweithiodd R. J. Kendall am amser ar staff y 'Welsh Gazette,' beibl-dydd-lau Sir Aberteifi a gŵyr darllenwyr y papur hyglod hwnnw am ei ddawn fel newyddiadurwr. Yr un ddawn a welir yn ei nofel gyntaf hon a dewisodd gefndir newyddiadurol i'w ysgrifennu. Cystal cydnabod o'r dechrau nad yw hon yn nofel fawr ac ni chredaf i'r awdur anelu at y fath beth. Ei nod syml yw diddori darllenydd a llwyddodd yn rhyfeddol yn ei amcan. Weithiau y mae braidd yn naïf yn nhrefniant ei ddigwyddiadau a chredaf y byddai yn ddiogelach disgrifio hon fel "nofel i ieuenctid" nac fel nofel. Gallaf ddychmygu bechgyn ifainc o'r pedair-ar-ddeg i'r pedair-ar-hugain yn cael hwyl ddychrynllyd wrth ganlyn anturiaethau peryglus y riporter mentrus, Harri Rhydderch. Gogledd Ceredigion yw maes y nofel ond gadawaf i chwi ddarganfod beth yw'r dirgelwch sydd ynghlwm wrth hen feini'r derwyddon yno.

Y MART.

Gwartheg a ddaw i'w gwerthu—a phreiddiau
O'r ffriddoedd dan frefu ;
Yma o'r wlad ffermwyr lu
A oedant i lygadu.

MYFI.

(*Efelychiad*).

Nid wyf yn unig ar wahan, nid wyf ymhell fan draw,
Myfi yw'r cyfan, ym mhob peth, 'rwyf beunydd wrth dy law.
Myfi yw'r seren fore dlos, myfi yw'r wig a'i chôr,
Myfi yw cân y gornant sy'n chwilio am y môr.
Myfi yw cusan mwyn yr haul, myfi yw dagrau'r glaw,
Myfi yw anadl bore o Fai a niwl y mynydd draw.
Myfi sydd egin yn yr had a drws i dŷ'r blodeuyn,
Myfi yw'r heddwch genfydd dyn, myfi fy hun yw'r gwanwyn.
Myfi yw nyth aderyn bach, myfi yw trydar dail
Myfi yw'r santaidd nerth di-ball, sy'n fywyd ac yn sail.
Myfi yw'r gwefr deimla dyn wrth faddau camwedd gelyn
Myfi yw melodi a chân y gerdd ar dannau'r delyn.
Myfi yw ffynnon pob rhyw fod, myfi eu poen a'u gwawr,
Myfi yw dewrder cudd y gwan a gyfyd lwch y llawr.
Myfi yw'r gobaith bery byth a'r hwyl o ddwyfol anian
Myfi yw Cariad Bugail Da sy'n casglu'r praidd i'r gorlan.
Myfi yw'r golau oddi mewn, myfi yw Ffordd y crwydryn
Myfi yw'r alwad ddistaw fain yn enaid pob credadyn.

Myfi yw ffrwyth pob meddwl mawr, myfi yw'r pen a'r llyw
Sy'n cymell ac yn arwain dyn, myfi a elwir Dduw.

D.J.D.

Dadorchuddio

MAEN COFFA Y PARCH. E. O. JENKINS.

Bu cyfarfod arbennig yn Llwynrhydowen brynhawn Mercher, Medi 22, i ddadorchuddio maen coffa i'r diweddar Barch. E. O. Jenkins. Daeth nifer dda ynghyd, rhai o Abertawe, a Threbanos a'r Tumble.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. A. J. Martin. Darllenwyd rhan o'r Ysgrythur gan Mr. Watcyn Davies, a Mr. Elwyn Davies, B.A. yn gweddio. Yna siaradwyd ar ran y Gymdeithas Undodaidd gan y Parch. S. E. Bowen. Dadorchuddiwyd y maen gan Mr. W. S. Jones, Llandre, Aberystwyth, perthynas a chyfaill agos i Mr. Jenkins. Gweddiwyd gan y Parch. J. Marles Thomas, a bu nifer yn talu eu teyrnged o goffa, gan gynnwys y Cynghorwr Gruffydd Davies, Mr. Roderic Bowen, Q.C., A.S., y Parchn. D. A. Williams, Carmel gynt, a Richard Morris, Llandysul ; Mr. E. P. Jones yn cynrychioli cynulleidfa Llainydelyn, Tumble ; Miss Davies, Pantmoch a Mr. John Daniel Jones, Syr Rhys Hopcyn Morris, A.S., Cynghorwr Edward Lewis, Y.H., Y Parchn. Simon Jones, Abertawe a T. Oswald Williams, a Mr. J. C. Jones, Derwydd. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. E. Walter D. Jones, Carmel.

Darllenwyd neges oddiwrth Mrs. Lisa Marles James, merch Gwilym Marles, y Prifathro J. D. Jones a'r Parch. D. Jacob Davies, a'r Parch. E. Glyn-Evans, gynt o Chowbant.

Ar y maen ceir y geiriau : Er cof annwyl am y Parch. Evan Oliver Jenkins, gweinidog Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa o 1902 hyd 1951. Gŵr a roes ei fywyd i wasanaethu'r eglwysi hyn fel bugail ffyddlon a chyfaill cywir a chefnogwr pob mudiad i ddyrchafu dyn. "Efe oedd gannwyll yn llosgi, ac yn goleuo.

CYRDDAU'R HYDREF

Mawrth a Mercher, Tachwedd 2 a 3, 1954

Ym MWLCHYFADFA

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fawrth am 6.30 o'r gloch—Dwy bregeth.

Dydd Mercher—

10.30—Pwyllgor y Gymdeithas.
Llywydd—Y Cynghorwr Griffith Davies.

2 o'r gloch—Cyfarfod dadorchuddio Maen Coffa i'r diweddar Barch. E. O. Jenkins.

6 o'r gloch—Dwy bregeth.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.